



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion

Triniaeth Hormonau

Adran Wroleg

Beth yw hormonau?

Mae gan bawb hormonau ac mae nifer fawr ohonyn nhw yn ein corff. Cemegau yn y gwaed ydyn nhw ac mae gan bob hormon swyddogaeth wahanol ac mae'n effeithio ar wahanol organau yn y corff. Efallai eich bod wedi clywed am inswlin ac adrenalin; maen nhw ill dau yn hormonau.

O ran canser y prostad, mae'r hormon gwrywaidd **testosteron** yn bwysig. Yn y ceilliau y cynhyrchir testosteron yn bennaf ond mae'r chwarennau adrenal (sy'n gorwedd ar ben yr arenau) hefyd yn cynhyrchu rhywfaint ohono. Un o swyddogaethau testosteron yw rheoleiddio gweithrediad, twf a datblygiad arferol yr organau cenhedlu gwrywaidd, ac un o'r rhain yw'r prostad.

Mae triniaeth hormonau ar gyfer canser y prostad yn gweithio naill ai trwy atal y ceilliau rhag cynhyrchu'r hormon gwrywaidd testosteron neu drwy rwystro effaith testosteron ar y corff. Mae testosteron fel bwyd i'r canser a thrwy ei dynnu o'r corff, mae twf y canser yn arafu. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae'r canser yn dysgu sut i dyfu heb y testosteron. Felly, ni fydd therapi hormonau yn gweithio dros gyfnod amhenodol ond, y bwriad yw y bydd yn cadw'r canser dan reolaeth am nifer o flynyddoedd.

A allaf i gael llawdriniaeth neu radiotherapi?

Pan fydd canser y prostad yn lledaenu, mae'n lledaenu tu hwnt i'r prostad i'r meinweoedd cyfagos (**wedi datblygu'n lleol**) ac yna i'r esgyrn (**metastatig**). Pan fydd rhai dynion yn cael diagnosis, gellir gweld bod eu canser y prostad wedi datblygu'n lleol neu'n ganser metastatig. Ni fyddai llawdriniaeth neu radiotherapi yn gwella'ch canser os yw wedi lledaenu felly oherwydd nad yw triniaethau o'r fath yn gwaredu nac yn targedu'r canser i gyd.

Beth yw manteision derbyn triniaeth hormonau?

Mae'n helpu i arafu twf a lledaeniad eich canser y prostad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn gwneud i'r canser grebachu i ddechrau. Mae'n ffordd dda i reoli canser y prostad ond ni fydd yn eich gwella.

Pwy sy'n addas ar gyfer derbyn triniaeth hormonau?

- Cleifion â chanser y prostad sydd wedi datblygu'n lleol neu ganser metastatig. Byddai triniaeth hormonau yn cael ei rhoi yn y tymor hir.

- Yn aml, rhoddir hormonau i gleifion sy'n cael radiotherapi fel triniaeth ychwanegol cyn neu/ac ar ôl radiotherapi. Gellir rhoi hormonau am ychydig fisoedd neu hyd yn oed ychydig flynyddoedd mewn achos fel hyn.
- Cleifion lle mae eu canser wedi dychwelyd pan mae eu llawdriniaeth neu eu triniaeth radiotherapi wedi methu. Bydd triniaeth yn cael ei rhoi yn y tymor hir.
- Efallai y bydd rhai cleifion yn derbyn hormonau i geisio lleihau maint y prostad cyn iddyn nhw dderbyn triniaeth arall, h.y. radiotherapi / brachytherapi. Dim ond am 3-6 mis y bydd triniaeth hormonau yn cael ei rhoi mewn achos felly.

Sut mae'r driniaeth yn cael ei rhoi?

- Mae tabledi gwrth-androgen yn rhwystro effaith testosteron. Efallai y byddwch yn cael y tabledi hyn cyn cael y chwistrelliad a ddisgrifir isod, a hynny am 3 wythnos yn unig - 1 wythnos cyn a 2 wythnos ar ôl cael y chwistrelliad. Mae Cyprostat (Cyproterone Acetate) a Casodex (Bicalutamide) yn enghreifftiau o'r tabledi hyn. Mae rhai cleifion yn cael y tabledi hyn am gyfnod hirach.
- Mae pigiadau Agonist Hormon Rhyddhau Hormon Lwtineiddio (LHRH) yn atal testosteron rhag cael ei ryddhau gan y ceilliau. Fe'i rhoddir ar ffurf pigiadau misol neu bob 3 mis o dan y croen ar eich stumog neu'ch braich neu i mewn i'r cyhyr (dim ond os mai pigiadau misol yw'r driniaeth). Mae Zoladex (Goserelin), Prostag (Leuprorelin), Suprefact (Buserelin) a De-Capeptyl (Triptorelin) i gyd yn agonistiaid LHRH. Bydd eich meddyg yn egluro pa un y byddwch yn ei gael. Bydd eich meddyg teulu neu nyrs practis yn gallu rhoi'r chwistrelliad hwn i chi yn y feddygfa.
- Llawdriniaeth i dynnu rhannau gweithredol y ceilliau – orcidectomi isgapsiwlaid dwyochrog. Drwy gael gwared ar y rhain, ni ellir cynhyrchu testosteron. Mae hyn yn dileu'r angen i dderbyn chwistrelliadau.

Beth yw sgîl-effeithiau triniaeth hormonau?

Bydd pawb yn ymateb yn wahanol. Efallai y byddwch chi'n profi un neu ddau, rhyw ychydig neu nifer fawr o'r sgîl-effeithiau mwyaf cyffredin. Rhestrir y rhain isod:-

Colli libido neu awydd rhywiol. Oherwydd yr effaith ar lefelau testosteron yn y corff, efallai y bydd gennych lai o ddiddordeb mewn rhyw. Nid yw colli'ch libido yn golygu eich bod chi'n colli diddordeb mewn perthynas gariadus, agos.

- Analluedd – methu cael codiadau digonol i gael cyfathrach rywiol
- Pyliau poeth a all wella dros amser ond weithiau gellir eu trin os ydyn nhw'n drafferthus
- Chwydd a phoen yn y frest - mae hyn yn fwy cyffredin gyda thriniaeth wrth-androgen
- Cynyddu pwysau, magu pwysau o gwmpas y canol neu chwydd yn ardal y frest
- Gellir teimlo blinder, llesgedd a hwyliau isel yn ystod wythnosau cyntaf y driniaeth
- Gallwch brofi cyfog a dolur rhydd os byddwch yn cymryd Flutamide (Drogenil) neu Casodex (Bicalutamide)
- Gall osteoporosis (teneuo'r esgyrn) ddigwydd yn y tymor hir

Beth fydd yn digwydd os bydd y sgîl-effeithiau hyn yn fy mhoeni?

Dylech drafod unrhyw bryderon sydd gennych am unrhyw sgîl-effeithiau gyda'ch meddyg/nyrs. Bydd ef/hi yn gallu'ch cynghori ynglŷn ag unrhyw driniaeth y gellir ei chynnig i helpu i leddfu'r symptomau sydd gennych.

Pa ddilyniant fyddaf i'n ei gael?

Ar ôl i chi ddechrau ar eich triniaeth hormonau, bydd apwyntiad yn cael ei drefnu i chi ddod i'r adran cleifion allanol i fonitro'ch cynnydd. Bydd gofyn i chi gael prawf gwaed y prostad (PSA) cyn pob apwyntiad; bydd hyn yn dangos pa mor dda rydych chi'n ymateb i'r driniaeth.

Os yw popeth yn iawn, efallai y byddwn yn gofyn i'ch meddyg teulu gynnal eich profion gwaed PSA a monitro'ch cynnydd ymhen ychydig flynyddoedd. Os yw'ch meddyg teulu yn pryderu am unrhyw un o'ch canlyniadau neu os byddwch chi'n datblygu unrhyw symptomau fel poen yn yr esgyrn, bydd yn ysgrifennu at yr Wrolegydd yn yr ysbyty ac yn gofyn am apwyntiad ar eich cyfer yn y clinig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae'r rhifau cyswllt ar gyfer y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg isod:-

Ward Wroleg D2 y Dwyrain

Rhif Ffôn:- 01633 - 234043 / 234044

24 awr

Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg

Julie Simpson

Louise Broadway

Kath Connor-Middleton

Jess Morgan

Rhif Ffôn: 01633 – 238976 (bydd negeseuon yn cael eu hateb pan nad yw staff ar ddyletswydd glinigol)

Oriau swyddfa Dydd Llun – Dydd Gwener

Ymarferydd Nyrsio Wroleg

Laura Reynolds

Rhif Ffôn:- 01633 – 234758

Oriau swyddfa Dydd Llun – Dydd Gwener

Cyfeiriadau:

Tanagho E A McAninch J W (2003) Smiths General Urology

**“This document is available in English /
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg”.**